# Pwyllgor Adnoddau Dynol

**28 Chwefror 2024**

Yn Bresennol (yn bersonol)
Mrs J James (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Mrs D Clements, Y Cynghorydd SL Hancock MBE, Dr R Heath-Davies, Y Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Y Cynghorydd R Jordan, Y Cynghorydd PJ Morgan a’r Cynghorydd A Wilcox.

[Ymunodd Mr G Jones adeg ystyried eitem 5, Diweddariad ar Reoli Adnoddau Dynol]

Swyddogion yn bresennol
Y Prif Weithredwr, Y Pennaeth Gwasanaethau Pobl, Y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

(Cyfarfod Rhithiol: 2.15 pm – 3.20 pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Nid oedd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

**2. Datgan Buddiannau**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2024 i’w cadarnhau a’u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd Hancock, a eiliwyd gan y Cynghorydd Jordan, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2024**.**

**4 . Log Gweithredu a Materion yn Codi**
Roedd nifer o'r camau gweithredu hyn yn gamau oedd yn parhau, a rhoddwyd diweddariad arnynt. O ran yr ystadegau absenoldeb salwch (Cam Gweithredu 936), eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl bod y ddau adroddiad wedi bod yn mesur y data mewn modd gwahanol. Fodd bynnag roedd gwaith yn parhau ar y gweill i sicrhau bod yr ystadegau absenoldeb a gynhyrchir yn ystyrlon ac y gallai rheolwyr weithredu arnynt.

[Ymddiheurodd y Cynghorydd A Wilcox a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ganlynol.]

**5. Diweddariad ar Reoli Adnoddau Dynol**
Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar waith sy'n cael ei wneud o fewn y tîm AD, gan gynnwys yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd oedd ar y gweill ar y pryd. Nodwyd nad oedd cam 1 o'r prosiect wedi'i gwblhau eto

ond bod WME, yr ymgynghorwyr sy'n gwneud y gwaith, wedi cyflwyno cynnig i allanoli gwaith ychwanegol iddynt hwy er mwyn ceisio atal oedi pellach, a bod yr Awdurdod wedi derbyn y cynnig diwygiedig hwn. Rhagwelwyd y byddai hyn yn sicrhau proses mwy cadarn. Nid oedd amserlen ar gwblhau'r Adolygiad wedi dod i law hyd yn hyn.

Aeth y swyddog rhagddo i egluro bod Paneli Cymedroli, yn cynnwys staff a chynrychiolwyr o Unsain, wedi'u trefnu ac y byddent yn gwerthuso 10% o'r swyddi er mwyn dilysu'r gwaith a wnaed.

Mynegodd yr Aelodau beth pryder ynglŷn â'r risg i'r gyllideb o ganlyniad i'r oedi, gan na fyddai'r broses wedi'i chwblhau o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol. Hefyd gofynnwyd am sicrwydd y byddai'r staff yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y broses, ac fe gafwyd y sicrwydd hwnnw. Atgoffodd y swyddogion y Pwyllgor bod cronfa ariannol wrth gefn wedi'i neilltuo ar gyfer yr ymarferiad gwerthuso, a nodwyd mai cam nesaf y broses Adolygu fyddai creu strwythur cyflogau fforddiadwy. Gallai hyn olygu meincnodi â Pharciau Cenedlaethol eraill a sefydliadau llywodraeth leol i geisio sicrhau bod y cyflogau yn gystadleuol.

Aeth yr Aelodau ymlaen i ofyn cwestiynau am yr adolygiad polisïau, am absenoldeb salwch ac am gydymffurfiaeth â'r trefniadau hyfforddiant, ac atebwyd pob cwestiwn. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Pobl bod yr Awdurdod yn talu'r gost o gael 'brechiad ffliw' i unrhyw aelod o staff oedd yn dymuno hynny, a chytunodd i ganfod faint oedd wedi manteisio ar hyn.

**Nodwyd.**

[Ymddiheurodd y Cynghorwyr R Jordan a P Morgan yr adeg hon gan adael y cyfarfod.]

**6. Eithrio'r Cyhoedd**

Ar gynnig y Cynghorydd Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd Hancock, **penderfynwyd** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.

[Ymddiheurodd y Cynghorwyr D Clements ac M James gan adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y mater canlynol.]

**7. Diweddariad am Swyddogion Statudol**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa Swyddogion Statudol yr Awdurdod. Amlinellodd y camau gweithredu arfaethedig o ran dwy o'r swyddi, a mynegodd yr Aelodau eu cytundeb mewn egwyddor. Yn ystod y drafodaeth daeth y Pwyllgor yn ddi-gworwm a

chytunodd yr Aelodau y dylai'r Prif Weithredwr drafod y trefniadau arfaethedig gyda phawb dan sylw ac adrodd yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol.

**Nodwyd.**